



Adroddiad Arolygu

Meithrinfa Ddydd What Tots Want

**Canolfan Gymunedol Glan yr Afon
Stryd y Castell
Llanfair-ym-Muallt
LD2 3BN**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg



Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

Date_Last_Inspection_Completed_Do not_Delete

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Meithrinfa Ddydd What Tots Want

Y math o ofal a ddarperir	Gofal dydd i blant Gofal dydd llawn
Person cofrestredig	Anna Jarvis Karen Jones
Lleoedd cofrestredig	25
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru	Arolygiad cyntaf ers cofrestru
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Mewnosod â llaw Nac ydy
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Nac ydy. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth.

<u>Llesiant</u>	Da
<u>Gofal a Datblygiad</u>	Digonol
<u>Yr Amgylchedd</u>	Da
<u>Arweinyddiaeth a Rheolaeth</u>	Digonol

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

Crynodeb

Mae'r plant yn hapus iawn ac wedi ymgartrefu yn y lleoliad hwn. Gallant wneud dewisiadau am yr hyn maent am ei wneud a dilyn eu diddordebau. Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac yn mwynhau eu chwarae yn fawr.

At ei gilydd, mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa a'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach gan eu bod yn dilyn polisiau a gweithdrefnau priodol ar y cyfan. Mae'r staff yn cefnogi'r plant yn dda iawn ac yn darparu ystod ddiddorol ac amrywiol o weithgareddau sy'n briodol i oedran yr holl blant sy'n mynychu'r feithrinfa.

Mae'r feithrinfa yn saff, yn ddiogel ac yn lân. Mae'r ystafelloedd chwarae yn agored, yn olau ac yn groesawgar. Mae ystod amrywiol o adnoddau o ansawdd da sy'n hyrwyddo holl feysydd dysgu a datblygu'r plant. Mae'r ardal chwarae awyr agored mawr sy'n gysylltiedig yn gryfder arbennig yn y feithrinfa ac yn cael ei ddefnyddio'n aml iawn gan blant o bob oed.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn creu ethos cadarnhaol ac yn ymroddedig i gynnal darpariaeth o safon. Fodd bynnag, nid yw rhai agweddau ar yr arweinyddiaeth a rheolaeth yn bodloni'r rheoliadau'n llawn. Rydym wedi nodi maes i'w wella ynghyd ag argymhellion; ceir crynodeb o'r rhain ar ddiwedd yr adroddiad.

Mae'r plant yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau am sut maent yn treulio eu hamser yn y lleoliad, gan gynnwys a ydynt am chwarae y tu mewn neu'r tu allan am rannau o'r dydd. Gallant gyfrannu eu syniadau i'w chwarae. Er enghraifft, roedd grŵp bach o blant hŷn wedi gwneud cerbydau allan o Duplo, gan ddweud wrthym y gallent eu newid i adenydd anferth a hedfan. Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac yn sgwrsio'n hapus ac yn gyfforddus gyda'i gilydd a chyda'r staff. Dywedodd plentyn wrthym ei fod wedi bod yn gwneud gweision y neidr, a dangosodd y model yr oedd wedi bod yn ei wneud i ni a oedd yn aros i gael ei orffen yn yr ardal grefftau. Mae plant iau a babanod yn gallu archwilio eu hamgylchedd yn rhydd.

Mae'r plant wedi ymgartrefu'n dda iawn yn y feithrinfa. Maent yn hapus ac wedi ymlacio ac mae ganddynt gyberthnasau cadarnhaol â'i gilydd a chyda'r staff. Maent yn adnabod trefn y dydd ac yn symud yn rhydd o un rhan o'r sesiwn i'r llall.

Mae'r plant yn ymddwyn yn dda. Mae'r plant hŷn yn gwneud ffrindiau ac yn chwarae'n gydweithredol gyda'i gilydd. Mae'r plant iau a'r babanod yn chwarae'n hapus ochr yn ochr â'i gilydd fel sy'n briodol i'w hoedran. Pan ddaw'r holl blant at ei gilydd yn yr ardd, mae'r plant hŷn yn ystyriol o'r rhai iau. Gwelsom blentyn, gyda chymorth aelod o staff, yn cael 'un tro arall' ar feic, ac yna'n gadael i blentyn arall a oedd wedi bod yn aros yn amyneddgar i gael tro.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae yn fawr iawn. Mae ganddynt ddiddordeb yn yr hyn maent yn ei wneud. Gwelsom un plentyn yn cyrraedd yn gyffrous iawn i weld a oedd y crysalisau wedi datblygu i fod yn bili-palod dros nos. Treuliodd plentyn iau gryn dipyn o amser yn archwilio gyda'r dŵr, yn ei arllwys i'r rhediad dŵr a'i gasglu mewn bwced y pen arall. Mae'r plant yn elwa ar weithgareddau grŵp fel sesiynau canu a symud rhyngweithiol iawn a arweinir gan oedolion. Maent hefyd yn mwynhau cyfnodau hir o chwarae hunanddewisol di-dor sy'n eu galluogi i gymryd rhan briodol yn yr hyn y maent yn dewis ei wneud.

Mae pob plentyn yn dysgu ac yn datblygu ym mhob maes o'r gweithgareddau a'r adnoddau a ddarperir ar eu cyfer. Gwelsom blentyn ifanc yn cicio pêl feddal, gan ddangos cydbwysedd a grym da iawn yn ei gic. Mae'r plant yn hyderus iawn ar draws y feithrinfa. Maent yn datblygu sgiliau hunangymorth ac yn dod yn annibynnol wrth reoli eu hanghenion personol. Er enghraifft, anogir babanod i roi cynnig ar fwydo eu hunain ac mae plant hŷn yn defnyddio'r toiled, yn golchi a sychu eu dwylo, yn bwyta, ac yn ceisio gwisgo eu cotiau eu hunain yn annibynnol.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa bolisiau a gweithdrefnau ar waith y maent yn eu hadolygu'n flynyddol, i gefnogi'r staff i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae polisi diogelu addas ar waith. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa a'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag unrhyw bryderon am y plant ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd pryder. Fodd bynnag, nid oedd dealltwriaeth glir o'r gweithdrefnau ynghylch honiadau yn erbyn staff, neu'r personau cofrestredig. Nid ydynt ychwaith yn cofnodi unrhyw anafiadau y gallant fod yn bodoli eisoes pan fydd y plant yn cyrraedd y feithrinfa. Ers yr arolygiad, mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa wedi cadarnhau eu bod wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i gofnodi'r rhain. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn casglu gwybodaeth gan rieni am alergeddau a gofynion deietegol. Mae'r plant yn dod â bwyd a diod o gartref, ond ers yr arolygiad, mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa wedi dweud wrthym y byddant yn dechrau darparu ffrwythau, llaeth a dŵr ar gyfer amser byrbryd. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau hylendid addas ar y cyfan mewn perthynas â thrin bwyd a newid cewynnau ac yn sicrhau'n gyson bod y plant yn golchi eu dwylo cyn bwyta. Fodd bynnag, nid oeddent yn gwisgo ffedogau wrth drin bwyd ac nid oeddent bob amser yn gwisgo ffedogau wrth newid cewynnau. Ers yr arolygiad, mae'r person cofrestredig wedi cywiro hyn.

Mae systemau ar waith i gofnodi damweiniau, er nad yw'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn olrhain y damweiniau ar gyfer patrymau. Ers yr arolygiad, mae'r person cofrestredig wedi rhoi system ar waith i fonitro damweiniau, digwyddiadau neu anafiadau a oedd yn bodoli eisoes ar gyfer plant unigol. Mae digon o staff â hyfforddiant mewn cymorth cyntaf pediatrig.

Mae'r staff yn rhyngweithio'n dda iawn â'r plant ac yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â nhw. Maent yn cynnig anogaeth a chanmoliaeth i blant. Mae polisi rheoli ymddygiad addas ar waith, er na welsom unrhyw faterion o ymddygiad heriol yn ystod ein hymweliad. Mae'r staff yn fodolau rôl da i'r plant.

Mae'r staff yn cefnogi plant o bob oed yn dda iawn yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn darparu lefelau uchel o ymgysylltu wrth iddynt ymuno â gweithgareddau ochr yn ochr â'r plant ac yn datblygu sgysiau gyda nhw. Er enghraifft, treuliodd grŵp bach o blant amser hir wrth y bwrdd arlunio gydag aelod o staff, yn lliwio, arlunio a sgwrsio'n hapus. Mae hyn yn cefnogi'r plant i ymestyn eu sgiliau a lefelau eu canolbwytio a dyfalbarhad. Mae'r staff yn darparu amrywiaeth dda o weithgareddau ac adnoddau diddorol i'r plant y tu mewn a'r tu allan. Er enghraifft, mae ganddynt ardd pili-pala, i alluogi plant i arsylwi ar gylchred bywyd y pili-pala, ac abwydfa. Ochr yn ochr â hyn, mae'r staff wedi darparu gweithgareddau crefft i'r plant gael gwneud eu fersiynau eu hunain o bili-palod, lindys a gweision y neidr. Nid yw'r staff yn gwneud unrhyw gynllunio ffurfiol – maent yn cynllunio o thema man cychwyn y maent yn ei thrafod gyda'r plant, ac yn gweld i ble mae hynny'n eu harwain. Nid ydynt yn olrhain nac yn cofnodi datblygiad y plant. Mae hyn yn golygu nad yw camau nesaf unigol a grŵp y plant yn cael eu cofnodi na'u bwydo i mewn i'r gweithgareddau y mae'r staff yn eu

darparu. Ers yr arolygiad, mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa wedi dweud wrthym eu bod wedi cyflwyno dulliau tracio datblygiad a'u bod yn ystyried ffyrdd o gynllunio ar gyfer camau nesaf a dilyniant y plant.

Yr Amgylchedd

Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau ei bod yn ddiogel, yn saff ac yn addas o lân, a'i bod yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda. Mae ymwelwyr yn llofnodi'r daflen arwyddo ddyddiol sydd yn y fynedfa wrth gyrraedd y feithrinfa. Mae asesiadau risg ar waith, er bod diffyg manylder yn y rhain ac nid ydynt yn nodi'r holl beryglon posibl. Lleolir y feithrinfa mewn neuadd gymunedol sydd at ei defnydd yn unig pan fydd y feithrinfa ar agor. Mae'r adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw gan y perchnogion. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar y tystysgrifau diweddaraf perthnasol ar gyfer diogelwch yr adeilad a gwiriadau tân. Mae cofnodion ar waith, sy'n cael eu cwblhau'n gyson, ar gyfer gwiriadau diogelwch dyddiol, yn ogystal â gwiriadau ar gyfer y larwm tân, tymheredd yr oergell a thymheredd bwyd (gan ddefnyddio chwiliedydd). Mae'r staff a'r plant yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn ymarferion gadael mewn argyfwng sy'n cael eu cofnodi gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa.

Mae dwy ystafell chwarae fawr, un ar gyfer plant dan ddwy oed ac un ar gyfer plant dros ddwy oed. Mae'r ddwy ystafell yn groesawgar, ac yn olau ac maent wedi'u hawyru'n dda. Mae'r ffenestri mawr a'r drysau gwydr yn y ddwy ystafell yn rhoi golwg dda a chlir i'r ardal awyr agored a rennir. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod ystod dda iawn o adnoddau, offer a gweithgareddau diddorol a phriodol ar gael ar gyfer pob plentyn. Mae rhai adnoddau naturiol ochr yn ochr ag adnoddau mwy nodweddiadol ac mae'r gornel gartref yn yr ystafell ar gyfer y plant dwy oed ac yn hŷn yn elwa o offer go iawn. Mae digonedd o le i blant symud o gwmpas a chwarae. Mae cynllun y ddwy ystafell yn galluogi pob plentyn i ddewis gweithgareddau ac adnoddau yn annibynnol. Mae adnoddau a chyfarpar yn galluogi'r plant i ddysgu a datblygu ym mhob ardal. Er enghraifft, mae ystafell y babanod yn cynnwys offer chwarae meddal, peli troed meddal a si-so ar sbringau i helpu i hybu datblygiad corfforol. Mae toiledau hygyrch yn rhoi cyfleoedd da i blant hŷn ddatblygu annibyniaeth wrth reoli eu hanghenion personol. Mae ardal ar wahân i fabanod a phlant iau gysgu'n ddiogel ac yn gyfforddus.

Mae'r ardal allanol yn gryfder arbennig yn y feithrinfa. Mae yna ardal falconi amgaeedig wedi'i gorchuddio sy'n arwain at ardal laswelltog fawr. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa wedi ymestyn ffin yr ardal hon yn ddiweddar. Mae wedi cael ei ffensiō'n ddiogel ac yn darparu cyfleoedd chwarae a dysgu cyfoethog. Er enghraifft, mae sleidiau wedi'u gosod ar lethr naturiol ac mae ardaloedd ar gyfer plannu a chloddio. Mae cwch hwylio bach, car wedi'i wneud o gadeiriau bach a hen deiars ac iard 'adeiladwyr' yn darparu ar gyfer chwarae dychmygol ac mae wigwam helyg fawr yn gwneud cuddfan glyd. Mae dŵr, tywod a dwy gegin fwd ar gael a gwelsom y plant yn cael llawer o hwyl yn rholio i lawr ail lethr naturiol ar feiciau tair olwyn. Ochr yn ochr â hyn, mae'r staff yn darparu gweithgareddau â ffocws fel paentio.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn darparu dodrefn ac adnoddau o ansawdd da sy'n addas ar gyfer anghenion datblygiadol pob plentyn.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Digonol

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, ac maent yn gweithio'n agos gyda'i gilydd a chyda staff y feithrinfa. Maent yn creu ethos cadarnhaol iawn yn y feithrinfa. Maent wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon ac yn ymateb yn gadarnhaol i argymhellion ar gyfer gwella. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa'r polisïau, gweithdrefnau a dogfennau gofynnol ar gyfer rhedeg y lleoliad. Maent yn adolygu'r rhain yn flynyddol. Fodd bynnag, nid yw un neu ddau yn adlewyrchu'r gwasanaeth yn llwyr ac nid yw'r polisi cwynion yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Ers yr arolygiad, mae'r person cofrestredig wedi cyflwyno datganiad o ddiben diweddedig i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac wedi cadarnhau y bydd yn adolygu ei holl bolisïau. Mae'r rhieni yn llofnodi pan fydd eu plant yn cyrraedd ac yn gadael y feithrinfa. Roedd y daflen llofnodi i mewn ac allan yn gywir ar ddiwrnod yr arolygiad ac yn cofnodi'r amseroedd cyrraedd a gadael. Roedd yr holl daflenni llofnodi i mewn a welwyd wedi cael eu cwblhau'n llawn ac yn gyson. Fodd bynnag, nid oedd y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn cofnodi'n gyson bod y staff yn bresennol na'r union amseroedd yr oeddent yn y feithrinfa. Nid oedd staff yn llofnodi i mewn ac allan wrth adael am ginio nac at unrhyw ddiben arall. Felly nid oedd yn bosibl tracio pa staff oedd yn gofalu am ba blant. Ers yr arolygiad, mae'r person cofrestredig wedi cadarnhau bod cofrestrau staff priodol bellach ar waith. Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa bob amser yn hysbysu AGC am ddiwyddiadau perthnasol – er enghraifft, pan fydd staff newydd yn dechrau gweithio yno.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn adolygu ansawdd y gofal yn eu lleoliad yn flynyddol trwy gasglu barn y plant, y rhieni a'r staff mewn holiaduron a thrwy ymateb i'w sylwadau. Maent yn nodi rhai meysydd yr hoffent eu gwella o ganlyniad i hyn. Fodd bynnag, nid yw'r adolygiad yn gwerthuso'r gwasanaeth y maent yn ei gynnig yn llawn ac nid ydynt yn datblygu cynllun gweithredu i'w cynorthwyo i roi gwelliannau ar waith.

Mae trosiant staff isel yn y lleoliad, ac mae llawer wedi bod yno ers sawl blwyddyn. Mae'r ddau berson cofrestredig ar gael i gyflenwi yn ystod absenoldebau staff. Fodd bynnag, nid oedd ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau i ddangos eu haddasrwydd. Ers yr arolygiad, mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa wedi cadarnhau bod yr holl wybodaeth ofynnol bellach ar gael. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae system addas ar waith ar gyfer goruchwyllo ac arfarnu'r staff. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wrth eu boddau yn gweithio yn y feithrinfa a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa.

Gwnaeth y bobl sy'n rhedeg y lleoliad roi contract ar waith ar gyfer pob plentyn sy'n mynychu'r feithrinfa ac maent yn casglu'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt gan rieni i ddiwallu anghenion y plant. Maent yn cyfathrebu gyda'r rhieni ar lafar a thrwy lyfrau cyfathrebu cartref ar gyfer pob plentyn sy'n dal i wisgo cewynnau neu sy'n cysgu yn y dydd.

Maent hefyd yn hysbysu rhieni ar dudalen gaeedig ar Facebook ac mewn ambell gylchlythyr. Rydym wedi derbyn sawl holiadur adborth gan rieni, yr oedd pob un ohonynt yn eithriadol o gadarnhaol am y feithrinfa. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn ffurfio cydberthnasau da gyda'r ymwelydd iechyd lleol a'r therapydd lleferydd ac iaith, yn ogystal â'r darparwr addysg gynnar lleol, lle mae llawer o'r plant hefyd yn mynychu.

Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

- A.1. Sicrhau bod yr holl waith papur a dogfennau bob amser yn adlewyrchu'r gwasanaeth a gynigir yn llawn, yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau, ac yn cynnwys digon o fanylion.
- A.2. Gwella gwybodaeth diogelu mewn perthynas â phryderon neu honiadau am oedolion yn y feithrinfa ac ymgorffori'r gwaith o gofnodi ac olrhain anafiadau sy'n bodoli eisoes gan blant wrth iddynt gyrraedd y feithrinfa.
- A.3. Dyfeisio a gweithredu system o asesu a chynllunio sy'n cefnogi cynnydd y plant mewn dysgu a datblygiad.
- A.4. Sicrhau bod AGC yn cael ei hysbysu am bob digwyddiad perthnasol.
- A.5. Sicrhau bod yr adolygiad ansawdd gofal yn gwerthuso'r feithrinfa yn llawn ac ystyried datblygu cynllun gweithredu ohono i gefnogi gwelliannau.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfriad yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfriad yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfriad yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfriad yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
28	Nid oedd y darparwr wedi cadw cofnodion staff a oedd yn darparu gwybodaeth lawn i ddangos	Newydd

	<p>addaswydd y staff i weithio gyda phlant. Rhaid iddo sicrhau bod yr holl ddogfennaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau ar gael yn ffeiliau'r staff cyn iddynt ddechrau gweithio.</p>	
--	---	--

Sgoriau	Ystyr y sgoriau
Rhagorol	Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel, ac maent yn gallu dangos eu bod yn gwneud cyfraniad cryf i wella llesiant plant.
Da	Dyma wasanaethau sydd â chryfderau ac sydd heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol.
Digonol	Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni gofynion sylfaenol, ond mae angen gwelliannau i hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant.
Gwael	Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau, a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n cael effaith negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyrannu hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.

Dyddiad cyhoeddi 07/07/2022